# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 30
CHWEFROR 2011

Yn ystod yr wythnosau diwethaf clywsom lawer yn y newyddion am gyffroadau gwleidyddol mewn rhai o'r gwledydd Arabaidd: protestiodd pobl Tunisia yn erbyn y llywodraeth, cytunodd arweinydd gwlad Yemen i ildio'r awenau ac fe ail-drefnodd brenin Jordan gabinet ei lywodraeth. Ond erbyn hyn gwlad yr Aifft sydd yn hawlio'r prif benawdau wrth i'r bobl yno brotestio yn erbyn llywodraeth lygredig yr Arlywydd Mubarak. Ar hyn o bryd mae'r sefyllfa yno yn bur ansicr a gwyddom fod rhai wedi cael eu lladd wrth brotestio, gyda dros wyth cant wedi eu hanafu ac wedi eu cludo i'r ysbyty am driniaeth. Mawr yw ein gobaith y bydd llywodraeth yr Aifft yn ymateb yn ddoeth i ofynion y bobl heb fod angen i ragor golli eu bywydau neu gael eu hanafu.

Nid yw'r Beibl yn brin o gyfeiriadau at brotest. Rhai o brotestwyr mwyaf yr Hen Destament oedd y proffwydi. Yn eu plith bu'r proffwyd Amos yn taranu yn erbyn cyfoethogion ei ddydd am iddynt orthrymu'r tlawd a threisio'r anghenus. Mae'r salmydd hefyd i'w glywed yn protestio wrth iddo ymdeimlo ag unigrwydd llethol a chael ei wawdio a'i ddirmygu gan ddynion eraill: 'O Dduw gwaeddaf arnat liw dydd, ond nid wyt yn ateb…pryfyn wyf fi ac nid dyn, gwawd i ddynion a dirmyg i bobl'.(Salm 22: 2 a 6). Ond os ydym am ddarllen am un o'r protestiadau mwyaf dramatig yn y Beibl rhaid troi at yr efengylau lle cawn yr hanes am brotest yr Iesu yn y deml.

Digwyddodd hyn ychydig cyn y Pasg pan oedd Jerwsalem yn orlawn o bererinion. Cythruddwyd yr Iesu nid yn unig gan yr holl brynu a gwerthu a ddigwyddai yn un o gynteddoedd y Deml ond am fod y masnachwyr yn gwneud elw ar draul y pererinion a ddeuai i'r deml i aberthu ac i dalu eu trethi. Byddai'r masnachwyr yn gwerthu anifeiliaid i'w haberthu yn y deml ac hefyd yn cyfnewid arian y rhai a ddaeth o wledydd eraill. Tra bod hyn ar un olwg yn cynnig gwasanaeth hwylus i'r pererinion a ddeuai o bell yr oedd y masnachwyr yn codi crocbris am yr anifeiliaid ac yn gwneud elw sylweddol iddynt hwy eu hunain yn enw Duw. Ar ben hynny, roedd yr holl brynu a'r gwerthu yn digwydd yn yr unig fan lle gallai'r cenedl-ddynion addoli, felly dyma droi tŷ Duw yn rhyw fath o fart cyhoeddus, yn union fel pe baem yn trefnu cynnal mart Aberystwyth yng nghapel Horeb neu Bethel! Felly oedd hi yn Jerwsalem!

I ganol yr holl brynu a'r gwerthu aeth yr Iesu gan yrru'r anifeiliaid allan, troi'r byrddau a'r cadeiriau wyneb i waered a thaflu arian mân y cyfnewidwyr ar chwâl. Mae'n amlwg o'r hanes fod yr Iesu wedi mynd yn gacwn gwyllt ac wedi bwrw ati i glirio'r deml gan ddweud wrth y troseddwyr: 'Gelwir fy nhŷ i yn dŷ gweddi, ond yr ydych chwi yn ei wneud yn ogof lladron'. (Mathew 21: 13)

Prif reswm yr Iesu dros brotestio oedd am fod y masnachwyr yn cymryd mantais o'r bobl gyffredin drwy wneud elw ar eu traul yn enw Duw a thrwy eu hamddifadu o'r hawl i addoli. Sefyll dros y bobl hyn wnaeth yr Iesu drwy lanhau'r deml.

Yn yr un modd wrth inni weld y lluniau brawychus o'r Aifft ac o fannau eraill yn y Dwyrain Canol mae ysbryd ein Harglwydd Iesu Grist gyda phob un sydd yn protestio yn erbyn gormes a llygredd ac mae ei gonsyrn yr un mor fyw heddiw ag yr oedd pan aeth ati i glirio'r deml yn Jerwsalem ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Ein gwaith ni fel Cristnogion yw bod yn barod bob amser i godi llais dros bawb sy'n cael eu hamddifadu o hawliau a breintiau sylfaenol bob dydd a gwae ni os na wnawn ni hynny a dilyn esiampl yr Iesu.

Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939     E-bost: berwynfa@btinternet.com

**CALENDR MIS CHWEFROR 2011**

| **Cyhoeddwr y Mis: Mervyn Hughes** | **Organydd y Mis : Ceris Gruffudd** | |
|---|---|---|
| 6 Chwefror 2.30 | Oedfa Gymun : Gweinidog | Bwrdd y Cymun:<br><br>Rhiannon Humphreys |
| 13 Chwefror 10.30 | Oedfa Deuluol: Gweinidog | |
| 20 Chwefror 2.30 | Oedfa Bregeth Gweinidog | Gofal y Te: Dafydd ac Elen Sheppard |
| 27 Chwefror 10.30 | Clwb Sul bach ac Oedfa Bregethu : Y Parchg John Roberts | |
| 6 Mawrth 2.30 | Oedfa Gymun: Gweinidog | Bwrdd y Cymun: Richard a Gwenan Davies |

**I'CH DYDDIADUR**

7 Chwefror : Cinio Cymorth Cristnogol: Eglwys Santes Anne, Penparcau, 12.00-1.30yp
9 Chwefror : Cinio Cymunedol Penrhyn-coch: Neuadd yr Eglwys (Horeb yn gyfrifol am weini).
15 Chwefror: Pwyllgor y Gymanfa Ganu yn Noddfa, Bow Street 7.00yh.
16 Chwefror : Cymdeithas Bethel : Parchedig Ian Girling, Ficer Eglwys y Drindod am 2yp.
16 Chwefror: Cymdeithas y Penrhyn: Keith Morris yn trafod ei luniau am 7.30yh.
22 Chwefror: Cwrdd Gweddi misol yn festri Horeb 7.30 (Byddwn yn trafod Efengyl Marc, Pennod 4).
23 Chwefror: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
15 Ebrill : Cyngerdd i Tirion Lewis yn Neuadd y Penrhyn yng nghwmni Côr Meibion Aberystwyth
12 Mehefin: Sul y Pentecost: Oedfa yn Soar y Mynydd

**LLOFFION**

**Cydymdeimlwn yn ddwys â:**

- Mrs Connie Evans, a'r teulu, ar golli ei phriod, Mr Eddie Evans
- Mr Gareth Phillips, a'r teulu, ar golli ei fam, Mrs Morfydd Morris, gweddw y diweddar Barchedig Arwyn Phillips Morris, cyn-weinidog Horeb.

**Dymuniadau gorau** i Miss Megan Thomas sydd yn yr ysbyty.

**Apêl am Gymorth:** Fe fydd Horeb yn trefnu cyngerdd i Tirion Lewis ar nos Wener, 15fed Ebrill yn Neuadd Penrhyn-coch yng nghwmni Côr Meibion Aberystwyth. Mawr obeithiwn y bydd ein haelodau yn cefnogi'r noson drwy werthu tocynnau, darparu lluniaeth ar gyfer y Côr a bod yn barod i gynorthwyo ar y noson.